# Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru
# Adroddiad Blynyddol, 2024-2025

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **Tudalen 3** |
| **Cefndir - Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud?** | **Tudalen 4** |
| **Cyflawni ein Blaenoriaethau yn 2023-24** | **Tudalen 4** |
| **Dioddefwyr a Thystion: Diwallu eu hanghenion** | **Tudalen 5-8** |
| **Pobl sydd wedi troseddu: Diwallu eu hanghenion** | **Tudalen 8-9** |
| **Ymyrraeth ac Atal Cynnar** | **Tudalen 9 -10** |
| **Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth** | **Tudalen 11 -12** |
| **2025 – Ein gweledigaeth ar gyfer Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru: Ymarfer Diweddaru'r Bwrdd** | **Tudalen 13** |

# Rhagair



Mae'n bleser gen i rannu ein pedwerydd Adroddiad Blynyddol, i roi gwybod i chi am y gwaith mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru wedi ei wneud dros y 12 mis diwethaf.

Mae'r Bwrdd yn unigryw i Gymru ac mae'n ein galluogi ni i ddod at ein gilydd fel arweinwyr ar draws pob agwedd ar y system gyfiawnder gyda rhanddeiliaid yng Nghymru i ganolbwyntio ar y materion pwysig y mae pob un ohonom yn pryderu amdanynt ac eisiau rhoi sylw iddynt. Eleni mae'r rhain yn cynnwys cam-drin domestig, ymateb i dreisio, hawliau dioddefwyr, lleihau troseddu a chyflawni ein Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth.

Mae'r adroddiad yn amlinellu manylion y gwaith rydym wedi ei wneud i roi sylw i'r heriau hyn. Hoffwn gymryd y cyfle yma hefyd i dynnu sylw at rai o'r prif gyflawniadau sy'n dangos cryfder gwaith partneriaeth yr ydym ni mor falch ohono yng Nghymru - sy'n gwneud y llwyddiannau hyn yn bosibl.

- **Gwell dealltwriaeth o brofiadau dioddefwyr**
  Datblygwyd *Model Dealltwriaeth a Pherfformiad y Cod Dioddefwyr* i helpu byrddau cyfiawnder troseddol lleol (byrddau lleol) i fonitro cydymffurfiaeth ac asesu, trwy adborth, a yw profiadau dioddefwyr yn gwella.
- **Goruchwyliaeth fwy cadarn o'r ymateb i gam-drin domestig yng Nghymru**
  Gan adeiladu ar ddiwygiadau trawsffurfiol cenedlaethol, gwnaethom ddatblygu cynlluniau gweithredu pwrpasol a set data a rennir i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio a ble mae angen mwy o waith i wella canlyniadau i ddioddefwyr.
- **Ymgysylltu â goroeswyr i gefnogi diwygio'r system Llys Teulu**
  Gwnaethom wrando ar grwpiau cymorth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol yng Nghymru, gan sicrhau bod eu lleisiau'n llywio'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r system llys teulu.
- **Ymateb pwrpasol i droseddu lleol**
  Rhannwyd data proffil trosedd lleol gyda byrddau lleol i gefnogi gwaith i ddatblygu cynlluniau gweithredu sy'n canolbwyntio ar droseddau allweddol a sbardunau sylfaenol ymddygiad troseddol ym mhob ardal.
- **Ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus o wrth-hiliaeth**
  Yn dilyn yr anhrefn cyhoeddus yr haf diwethaf, gwnaethom lansio ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ac amlygrwydd ein *Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth*, gan ailddatgan ein hymrwymiad i gymunedau lleiafrifoedd ethnig ledled Cymru.

I gloi, hoffwn dynnu sylw at y gwaith myfyriol pwysig y gwnaethom yn 2024. Ers 2020, mae'r system cyfiawnder troseddol a'r darlun gwleidyddol wedi newid yn sylweddol. Yn sgil hyn, rydym wedi cymryd amser i fyfyrio ar y ffordd rydym yn gweithio a sut gallwn ddefnyddio ein rôl unigryw yn well er mwyn gwella'r system cyfiawnder a chanlyniadau i'r rheini sy'n dod i gysylltiad ag ef yng Nghymru.

Ar ddiwedd yr adroddiad hwn, mae crynodeb o'n prif fyfyrdodau a'r camau nesaf rydym am eu cymryd i ail fframio gweledigaeth a ffocws y Bwrdd, ac i gryfhau ei bwrpas sylfaenol.

**Ian Barrow**
**Cadeirydd Dros Dro Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru**
**Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi Cymru**


## Cefndir – Pwy ydym ni

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru yn canolbwyntio ar faterion croestoriadol a chymhleth yn y system cyfiawnder yng Nghymru trwy ddod ag uwch reolwyr gweithredol o bob rhan o Gymru ynghyd i roi sylw i'r materion hyn gyda'i gilydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi,
- Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi,
- y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, gwasanaethau Heddlu Cymru,
- Prif Gwnstabliaid Cymru,
- Comisiynwyr Heddlu a Throsedd Cymru,
- Gwasanaeth Erlyn y Goron,
- Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru,
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru,
- cyrff y Sector Gwirfoddol,
- y Comisiynydd Dioddefwyr.

## Cyflawni ein Blaenoriaethau yn 2024-25

Mae'r inffograffeg isod yn rhoi cipolwg ar Gynllun Gwaith Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer 2024-25, gan amlinellu'r pedwar blaenoriaeth cyffredinol sy'n canolbwyntio ar feysydd allweddol er mwyn gwella profiadau a chanlyniadau pobl o fewn y system cyfiawnder.



# Dioddefwyr a Thystion: Diwallu eu hanghenion

Yn 2024-25, trwy'r Tasglu Dioddefwyr a Thystion, canolbwyntiodd y Bwrdd ar gyflawni'r pedwar nod canlynol:

1. Cydymffurfio â'r Cod Dioddefwyr
2. Lleihau cam-drin domestig
3. Codi ymwybyddiaeth o fesurau arbennig
4. Canolbwyntio ar y Llys Teulu

Fel y nodwyd y llynedd, cafodd y nodau hyn eu cynhyrchu ar y cyd gyda dioddefwyr a goroeswyr ledled Cymru, i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ddatrys y problemau yn y system cyfiawnder a oedd yn fwyaf pwysig iddynt.

## Cydymffurfio â'r Cod Dioddefwyr

Wrth i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder derfynu metrigau ac arolygon profiad dioddefwyr ei Chod Dioddefwyr cenedlaethol, mae Tasglu Dioddefwyr a Thystion Cymru wedi datblygu Cod Dioddefwyr - Model Sicrwydd a Dealltwriaeth i gefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei nodau. Bydd y model hwn yn dechrau gweithredu yn yr haf 2025.

Mae'r dull yma o weithio'n galluogi cyrff cyfiawnder troseddol i baratoi ar gyfer y gofynion a amlinellir yn y Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024[1], gan gynnwys goruchwylio ac adolygu cydymffurfiaeth â'r Cod Dioddefwyr.

Mae'r model yn cynnwys dwy elfen allweddol: casglu data a phrofiad bywyd dioddefwyr. Mae'r Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF, a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn rhannu data gyda Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol (byrddau lleol) (dogfen Saesneg yn unig) er mwyn deall hawliau dioddefwyr (dogfen Saesneg yn unig) yn well a monitro cydymffurfiaeth â nhw ar draws y system cyfiawnder.

Ar yr un pryd, mae darparwyr trydydd sector yn cyfrannu adborth seiliedig ar brofiadau dioddefwyr, gan gynnig sylwadau gwerthfawr ynghylch a yw cydymffurfiaeth â'r Cod yn arwain at wella canlyniadau. Mae'r dull deuol yma o weithio yn galluogi byrddau lleol i nodi meysydd y mae angen eu gwella yn gywir a chymryd camau cyd-gysylltiedig, seiliedig ar dystiolaeth yn lleol a ledled Cymru.

## Lleihau nifer y dioddefwyr cam-drin domestig sy'n ymadael â'r system cyfiawnder

Rhoddodd lansiad Cynllun Cyfiawnder ar y Cyd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron (dogfen Saesneg yn unig), ochr yn ochr â'r gwaith helaeth sydd wedi ei wneud eisoes yn 2023-24, gyfle i'r Tasglu Dioddefwyr a Thystion adolygu ei ymateb i gam-drin domestig. Cynhaliwyd ymarfer mapio i archwilio polisïau, cynlluniau a strwythurau llywodraethu presennol er mwyn deall yn well:

[1]Y Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 - prif adrannau: Adran 5 – Cydymffurfiaeth â'r Cod (daeth i rym 29/1/25). Adran 6 – Ymwybyddiaeth o'r Cod ac adolygu cydymffurfiaeth: cyrff cyfiawnder troseddol. Adran 7 – Trefniadau ar gyfer casglu sylwadau dioddefwyr Adran 8 - Adolygu cydymffurfiaeth â'r Cod: cyrff plismona etholedig lleol - gofynion comisiynwyr yr heddlu a throsedd

- Pa gamau gweithredu oedd yn cael eu cymryd
- Dyblygu neu gyffredinedd
- Pa ddata cam-drin domestig oedd yn cael ei gasglu
- Pwy oedd yn gyfrifol am fonitro a goruchwylio perfformiad

O ganlyniad, cytunwyd ar ffordd newydd o weithio. Mae'r gwaith i roi'r camau hyn ar waith bron a gorffen yn awr a disgwylir i'r cam cyflawni ddechrau yn yr haf 2025.

Mae'r agwedd newydd yma'n adeiladu ar Gynllun Cyfiawnder ar y Cyd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron (dogfen Saesneg yn unig), yn ogystal â'r argymhellion a phryderon a nodwyd gan y Comisiynydd Cam-drin Domestig yn ei hadroddiad *'Shifting the Scales'* (dogfen Saesneg yn unig). Cafodd cynlluniau cam-drin domestig presennol eu cyfuno gyda Chynlluniau Cam-drin Domestig lleol, a'u halinio gyda blaenoriaethau cenedlaethol ar draws gwledydd Prydain. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu'r camau gofynnol er mwyn gwella ymateb y system cyfiawnder i gam-drin domestig - o adrodd ac ymchwilio i gyhuddo, achosion llys, ac ar ôl dedfrydu.

Mae'r cynlluniau'n cael eu cefnogi gan ddangosfwrdd perfformiad cam-drin domestig, sy'n hwyluso monitro ac adrodd effeithiol, gan helpu i nodi'r hyn sy'n gweithio a ble mae angen gwelliannau pellach.Mae Grwpiau Cam-drin Domestig lleol wedi cael eu sefydlu i gyflawni'r cynlluniau hyn ac i roi gwybod i'r byrddau lleol am gynnydd.

Aethom ymhellach trwy ddwyn yr holl gynlluniau cam-drin domestig lleol at ei gilydd i adnabod heriau cyffredin ar draws rhanbarthau. Arweiniodd hyn at greu Cynllun Cam-drin Domestig Cymru, sy'n dwyn pwysau ar bartneriaethau presennol a strwythur daearyddol Cymru i fod yn gyson, i gyflawni gwasanaethau o safon uchel, ac i sicrhau gwell profiadau a chanlyniadau i ddioddefwyr ledled y wlad.

## Codi ymwybyddiaeth o fesurau arbennig

Rhannodd pob heddlu yr animeiddiadau mesurau arbennig byr gyda'r cyhoedd unwaith eto ar eu cyfryngau cymdeithasol a'u gwefannau i barhau i godi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd.

Yn fewnol, er mwyn atgoffa'r holl staff am eu gofynion mewn cysylltiad â mesurau arbennig gwnaethom gymryd amryw o gamau gweithredu gan gynnwys:

- Datblygu a rhannu ein siart lif 'Mesurau Arbennig: mae'n fusnes i bawb' gyda chyflogeion ar draws y system cyfiawnder. Mae'r ddogfen yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau allweddol i sicrhau bod yr holl fesurau arbennig yn cael eu trafod gyda dioddefwyr a thystion.
- Rhannu animeiddiad mesurau arbennig a'r Pecyn Gwybodaeth Safleoedd rhoi Tystiolaeth o Bell gyda thimau heddlu sy'n gweithio gyda dioddefwyr cam-drin rhywiol a domestig, gan roi'r dulliau gweithredu angenrheidiol i swyddogion allu hwyluso sgyrsiau am fesurau arbennig.
- Gwreiddio'r animeiddiad mesurau arbennig mewnol ar lwyfannau mewnrwyd yr heddlu gan arweinwyr cyfathrebu, gan sicrhau mynediad rhwydd i staff.

Yn galonogol, mae adroddiadau perfformiad yn dangos ledled Cymru bod rhyw 70% o ddioddefwyr a gafodd gynnig mesurau arbennig wedi dewis gwneud cais amdanynt, sy'n

awgrymu bod ymdrechion i godi ymwybyddiaeth a rôl Eiriolwyr Mesurau Arbennig yn cael effaith gadarnhaol.

O ran Safleoedd rhoi Tystiolaeth o Bell, defnyddiodd bron i 200 o unigolion y cyfleuster hwn ledled Cymru rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2024. Yn nodedig, cafwyd cynnydd sylweddol yn y defnydd ohonynt mewn tri o'r pedwar rhanbarth. Mae goroeswyr yn dal i adrodd bod rhoi tystiolaeth o bell wedi gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel ac yn fwy hyderus, gan gadarnhau gwerth y ddarpariaeth hon.

## Canolbwyntio ar y Llys Teulu

Gwnaethom ddechrau rhoi sylw i'r nod yma, a nodwyd gan ddioddefwyr yn 2023-24, trwy greu Cofnod Problemau Llys Teulu sy'n amlinellu problemau a phrofiadau penodol goroeswyr o gyfraith breifat yn y Llys Teulu[2] ynghyd â'r argymhellion yn adroddiad Y Llys Teulu a Cham-drin Domestig y Comisiynydd Cam-drin Domestig (dogfen Saesneg yn unig). Rhannwyd y cofnod gyda grwpiau goroeswyr ledled Cymru i archwilio a phrofi a oeddem ni wedi dehongli'r problemau'n gywir neu i adnabod ble y gallem ni gryfhau ein hymateb. O ganlyniad i'r dull hwn, rydym wedi casglu amlinelliad o'r gwaith roeddem wedi ei wneud i roi sylw i bryderon goroeswyr yn y Llys Teulu sy'n cynnwys:

- **Rhoi'r** dull Llwybr Braenaru **ar waith ledled Cymru er mwyn diwygio cyfraith breifat**
  Mae llawer o'r problemau a nodwyd gan oroeswyr - fel oedi yn y broses, diffyg cydnabyddiaeth o reolaeth drwy orfodaeth, gwaradwyddo, a phlant ddim yn cael eu clywed - yn cael sylw uniongyrchol trwy roi'r dull Cynllun Braenaru ar waith ym mhob rhanbarth yng Nghymru. Mae'r model newydd hwn wedi lleihau amser aros ar gyfer gwrandawiadau trefniadau plant dros 50%. Mae cymorth Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol yn cael ei gynnig i bob dioddefwr cam-drin domestig yn awr, ac mae llais y plentyn yn cael ei gynnwys ym mhob adroddiad i'r llys.

- **Datblygu sgiliau**
  mae pob corff allweddol ar draws y Llys Teulu, barnwyr, staff a CAFCASS Cymru wedi sefydlu hyfforddiant ar gam-drin domestig a rheolaeth drwy orfodaeth.

- **Hyrwyddo Gwybodaeth Gywir**
  Mae **taflenni ffeithiau** CAFCASS Cymru wedi cael eu hyrwyddo ymysg grwpiau goroeswyr yng Nghymru i chwalu mythau a sicrhau bod unigolion yn cael gwybodaeth gywir.

- **Cyfathrebu a Newid Diwylliannol**
  Mae profiadau unigolion sydd wedi bod trwy'r system Llys Teulu blaenorol a'r un diwygiedig yn cael eu nodi er mwyn tynnu sylw at newidiadau cadarnhaol. Mae'r straeon hyn yn cael eu rhannu'n gyhoeddus ac ar draws sectorau arbenigol i hybu ymwybyddiaeth a thryloywder.

[2] Cyfraith Teulu preifat - yn ymwneud â - trefniadau cyswllt plentyn, cyfrifoldeb rhiant, gorchmynion mater penodol, gorchymyn camau gwaharddedig, llareiddiad ategol ariannol, a gwaharddebau cam-drin domestig.

Serch hynny, mae mwy o waith i'w wneud o hyd, a byddwn yn parhau i weithio gyda'n cydweithwyr yn y maes cyfiawnder teuluol ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys:

- Cynllun cwynion yng Nghymru i nodi'r gwahanol lwybrau ar gyfer cofnodi cwyn am wahanol rannau o'r system
- Codi ymwybyddiaeth o'r Llwybr Braenaru i sicrhau bod pobl yn gwybod am y newidiadau i'r system a'r hyn y gallant ei ddisgwyl.
- Hyrwyddo cynllun peilot Tryloywder y Llys Teulu.

---

# Pobl sydd wedi troseddu: Diwallu eu hanghenion

### Bydd byrddau lleol yn rhoi cynlluniau gweithredu 12 mis seiliedig ar dystiolaeth ar waith i roi sylw i ymddygiad troseddu lleol

Fel yr adroddwyd y llynedd, datblygwyd proffiliau troseddu lleol i helpu byrddau lleol i greu a gweithredu cynlluniau gweithredu seiliedig ar dystiolaeth i roi sylw i'r tair trosedd fwyaf cyffredin yn eu rhanbarth. Cafodd y cynlluniau hyn eu datblygu a gweler rhai enghreifftiau isod o'r gwaith a wnaed yn lleol i roi sylw i'r prif droseddau:

- De Cymru - rhoddwyd rhaglen rhybuddio a pherthnasoedd camdriniol ar waith i ymateb i gam-drin domestig. Canolbwyntiodd y Tîm Rheoli Integredig Troseddwyr ar droseddau cymdogaeth yn unol â'u meysydd blaenoriaeth.
- Gogledd Cymru - cafwyd diweddariad o'u hymateb amlasiantaeth o ran ymdrin â stelcio a rhoddwyd ymgyrch ar waith i ganolbwyntio mwy ar y drefn gyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Dyfed Powys – cafwyd mwy o gyllid ar gyfer cynlluniau peilot i ddarparu llety 'symud ymlaen' i bobl sy'n cael cymorth gan y rhaglen rheoli integredig troseddwyr ledled Dyfed-Powys – datrysiad y mae'n hysbys ei fod yn gweithio o ran lleihau ail droseddu.
- Gwent - Ymgyrch Lumley - canolbwyntiodd ar ardaloedd penodol yn seiliedig ar ymddygiad gwrthgymdeithasol/trais, gan edrych ar droseddwyr cyson a throseddwyr mynych yn yr ardaloedd hyn.

Cafodd asesiad o anghenion proffiliau troseddu lleol eu diweddaru yn ystod gwanwyn 2025. Mae'r byrddau lleol yn defnyddio'r data i bennu eu blaenoriaethau lleol a chytuno ar sut y byddant yn cydweithio i ymdrin â'r troseddwyr mwyaf cyson gyda'i gilydd a lleihau ail droseddu yn y blynyddoedd i ddod.

### Ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau ac ymyraethau sydd ar gael ledled Cymru i leihau ail droseddu

Yn rhan o adolygiad 2023-24 y Bwrdd o sut rydym yn diwallu anghenion pobl sydd wedi troseddu, nodwyd amrywiaeth eang o ymyraethau a gwasanaethau ledled Cymru sy'n rhoi sylw i ymddygiad troseddol ac yn ceisio lleihau ail droseddu. Er mwyn manteisio ar y wybodaeth hon, crëwyd cronfa fewnol ar wefan Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru.

Anogir comisiynwyr i ddefnyddio'r adnodd hwn yn ystod eu cylchoedd comisiynu yn awr er mwyn cefnogi dull o gyd gomisiynu mewn ffordd gyd-gysylltiedig - gan raddio ymyraethau effeithiol a lleihau dyblygu. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r gwasanaethau canlynol wedi cael eu comisiynu:

- Gwasanaeth cymorth niwroamrywiaeth i unigolion ar brawf ledled Cymru
- Gwasanaeth anafiadau ymennydd i bobl yn y carchar ac mewn Mangreoedd a Gymeradwywyd, yn ogystal â chynnig o ymgynghoriad i staff prawf
- Gofyniad Triniaeth Iechyd Meddwl i bobl ar brawf, wedi'i lywio gan yr hyn a ddysgwyd yn sgil cynllun peilot Dyfed-Powys.

# Ymyrraeth ac Atal Cynnar

Eleni, gwnaethom ganolbwyntio ar gyflawni tri nod allweddol, ac amlinellir y cynnydd a wnaed mewn cysylltiad â'r rhain isod.

**Mae sefydliadau cyfiawnder troseddol yn ymwybodol o egwyddorion Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE), ac am arferion ystyriol o drawma**

Mae'n bwysig pwysleisio unwaith eto bod y nod hwn yn bellgyrhaeddol ac yn gymhleth. Rydym yn ceisio creu newid systemig go iawn ar draws y maes Cyfiawnder Troseddol, a gwasanaethau datganoledig a heb eu datganoli ledled Cymru. Mae hyn yn golygu bod y gwaith yn cymryd amser, mae'n ailadroddol ac mae'n cael ei reoli fesul cam er mwyn sicrhau canlyniadau effeithiol.

Dechreuodd gwaith eleni trwy nodi sefydliadau arloesol ac estyn gwahoddiad iddynt ymuno â Chymuned Ymarfer Systemau Cyfiawnder Troseddol Ystyriol o Drawma, sy'n cael ei chynnal gan Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru, cyd-arweinwyr Fframwaith Cymru Ystyriol o Drawma.

Ymrwymodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF, a phartneriaid plismona yng Nghymru (gan gynnwys pedwar heddlu a phedwar comisiynydd heddlu a throsedd Cymru) i roi'r Pecyn Cymorth Ystyriol o Drawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, a ddatblygwyd gan Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru, ar waith. Cynhaliodd rhai sefydliadau ddigwyddiadau a chynadleddau i gefnogi datblygiad Datganiad o Ymrwymiad sefydliadol - gofyniad allweddol gan y pecyn cymorth - a dechrau ar y broses hunanasesu.

Mae'r gwaith hunanasesu hwn, cam cyntaf y nod, yn cynnwys ymgysylltu ag arweinyddiaeth ac adnabod cryfderau a diffygion ar draws chwe maes: Arweinyddiaeth a Llywodraethu, Polisïau a Gweithdrefnau, Cynllunio a Chyflawni Gwasanaeth, Amgylchedd Ffisegol, Hyfforddiant a Datblygu, a Monitro a Gwerthuso.

Mae'r sefydliadau arloesol ar wahanol gamau o ran cwblhau eu hunanasesu. Yn ystod 2025-26 byddant yn parhau i ddefnyddio Cymuned Ymarfer Cymru i rannu'r hyn a ddysgwyd yn lleol a chynlluniau gweithredu, gan feithrin cydweithrediad.

- Cynhaliodd Heddlu De Cymru gynhadledd ar draws yr heddlu cyfan i ymgysylltu â staff a nodwyd dros 60 pwynt cyswllt unigol i gefnogi'r broses hunanasesu.
- Ymchwiliodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys i'w rolau a swyddogaethau trwy gyfrwng cyfres o weithdai gyda Chanolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru.
- Mabwysiadodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF ddull gweithio pwrpasol, yn defnyddio Pecyn Cymorth Ystyriol o Drawma Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru i sicrhau bod y cynllun peilot Gorchymyn Amddiffyn Cam-drin Domestig yng ngogledd Cymru yn ystyriol o drawma.

## Sicrhau bod byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn meddu ar y gwasanaethau, ymyraethau, a llwybrau cywir er mwyn ymyrryd yn gynnar ac atal troseddau a niwed

Mae byrddau lleol wedi ymroi i ddulliau ymyrraeth ac atal cynnar. Serch hynny, cydnabuwyd bod y nod hwn yn cynnwys amrywiaeth eang o waith a mentrau, ac mae llawer yn cael ei wneud eisoes yn y maes hwn, trwy'r cynlluniau Pobl sydd wedi Troseddu lleol a chyfarfodydd partneriaeth eraill yng Nghymru, yn arbennig Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Gan hynny, yn rhan o gylch pennu blaenoriaethau strategol Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru eleni, bu'r byrddau lleol yn myfyrio ar eu swyddogaeth o ran gwaith atal a sut i ychwanegu gwerth. O ganlyniad, cytunodd arweinwyr i weithio'n fwy cydgysylltiedig ar faterion croestoriadol gyda phartneriaid yng Nghymru er mwyn creu ymateb cydlynol ac annog cydweithredu.

## Deall pa mor gyffredin yw anaf a gafwyd i’r ymennydd ymhlith menywod yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru


Cyflwynwyd yr adroddiad terfynol ar sut mae menywod yn cael eu heffeithio gan anaf a gafwyd i'r ymennydd ledled y system cyfiawnder troseddol i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2024.

Cytunwyd y byddai argymhellion yr adroddiad yn cael eu hystyried gan fyrddau cyfiawnder troseddol lleol wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau lleol yn ystod gwanwyn 2025. Yn dilyn hynny bydd yn cael ei ystyried yn ehangach gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru wrth iddo bennu ei flaenoriaethau strategol yn ystod Mehefin 2025.

# Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth

Cyhoeddodd y Bwrdd ei Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru, ym mis Medi 2022, gan nodi saith ymrwymiad cyffredinol y Bwrdd er mwyn cyflawni newid systemig a diwylliannol erbyn 2030.

Rhaid i ni ddechrau trwy gydnabod effaith aflonyddwch sifil yn 2024. Roedd y digwyddiadau hyn yn pwysleisio'r angen taer am y Cynllun a'r angen i gyflawni newid yn gyflym ar gyfer ein pobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru.




Fodd bynnag, mae'r digwyddiadau erchyll hyn wedi dangos ein cryfderau hefyd. Llwyddodd cydlyniant cymunedol i wrthfesur trais ac i adfer heddwch ar ein strydoedd.
O ganlyniad, rydym wedi ail ganoli ein hagwedd tuag at ymgysylltu â'r gymuned. Yn ystod haf 2025, bydd cynllun Cydweithredu Cymunedol yn dechrau. Bydd aelodau'r Bwrdd yn ymweld â grwpiau a digwyddiadau cymunedol ledled Cymru i gael profiad uniongyrchol o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu a'r heriau mae cymunedau'n eu hwynebu. Byddwn yn casglu'r wybodaeth o'r ymweliadau hyn a byddwn yn cynnal symposiwm gyda chymunedau yn Ionawr 2026 i gynllunio camau gweithredu.

Ceir gwybodaeth fanylach am y fenter hon a'r gwaith ehangach a wnaed y llynedd yn ein hail **Adroddiad Blynyddol Gwrth-hiliaeth**.

Ceir crynodeb o rai o'r prif benawdau o'r Adroddiad Blynyddol Gwrth-hiliaeth isod.

## Cynyddu amrywiaeth aelodau byrddau cyfiawnder troseddol lleol a Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru

Cysylltodd byrddau lleol de Cymru gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol a grwpiau cymuned lleol a sicrhau pum aelod newydd o gefndiroedd amrywiol i eistedd ar eu byrddau lleol strategol yn ogystal â'u gweithgorau. Mae'r dull gweithio hwn wedi cael ei fabwysiadu

gan fyrddau lleol eraill yng Nghymru gyda'r nod o gwblhau'r cam enwebu a phenodi aelodau newydd yn ystod y misoedd nesaf. Yn ogystal, mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru wedi penodi dau o bobl o leiafrifoedd ethnig sy'n gweithio yn y system cyfiawnder yn aelodau gwahoddedig o'r Bwrdd. Bydd cynyddu amrywiaeth lleisiau, talent ac arbenigedd yn gwella penderfyniadau a thryloywder.

### Gwella'r gwaith o gasglu a rhannu data er mwyn monitro a deall anghydraddoldeb yn well

Mae asiantaethau partner wedi cytuno i'r data y byddant yn ei rannu i ddeall a monitro anghydraddoldeb a chynrychiolaeth yn well ar draws y system cyfiawnder troseddol. Mae'r data hwn yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol eleni am y tro cyntaf ac mae'n rhoi sail tystiolaeth bwysig y gall y Bwrdd ei ddefnyddio i benderfynu ar y meysydd y dylid canolbwyntio arnynt ac i fesur gwelliannau a llwyddiant.

Yn ogystal, mae arolwg o effaith wedi cael ei greu a'i rannu gan ein darparwr cyfathrebu Cowshed i ddeall a phennu llinell sylfaen o ran lefelau ymwybyddiaeth, gwybodaeth a hyder y cyhoedd mewn cysylltiad â'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth. Bydd y wybodaeth hon yn helpu i sicrhau bod gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu yn canolbwyntio ar y meysydd cywir yn y dyfodol.

### Datblygu fframwaith hyfforddiant gwrth-hiliaeth a chymhwysedd diwylliannol ar gyfer y gwasanaeth cyfiawnder troseddol yng Nghymru

Rhannwyd y Fframwaith Hyfforddiant Gwrth-hiliaeth a'r Safonau cysylltiedig ac maent yn cael eu gwreiddio ar draws sefydliadau cyfiawnder troseddol. Y flwyddyn nesaf, bydd hyfforddiant gwrth-hiliaeth yn cael ei roi ar waith ar gyfer hyfforddwyr gweithredol ledled y system cyfiawnder troseddol. Edrychwn ymlaen at adrodd am ganlyniadau'r gwaith hwn yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

### Cyflawni'r Strategaeth Cyfathrebu Gwrth-hiliaeth

Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau eleni i hybu'r cynllun, gan gynnwys:

- Lansio ymgyrch cyfathrebu cyhoeddus gyda brandio newydd i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun a'i bwrpas.
- Cafodd deunyddiau cyfathrebu, fel posteri a phecynnau cymorth, eu cyfieithu i nifer o ieithoedd.
- Tudalennau gwefan ar gyfer y Panel Cynghori a Goruchwylio Annibynnol - cynhelir ar wefan Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru.
- Cynhaliwyd gweithdai gyda'r Rhwydwaith Ymgysylltu â'r Gymuned i ddatblygu negeseuon mwy rhagweithiol i ddangos ymroddiad i wrth-hiliaeth gan y system cyfiawnder troseddol.

# 2025 - Ein gweledigaeth ar gyfer Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru

## Ymarfer Diweddaru'r Bwrdd

**2025 - Ein gweledigaeth ar gyfer Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru**

**Ymarfer Diweddaru'r Bwrdd**

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae gwleidyddiaeth a chyfiawnder wedi newid yn sylweddol - gan gynnwys llywodraeth newydd yn y Deyrnas Unedig gyda blaenoriaethau newydd, comisiynwyr heddlu a throsedd wedi eu hail ethol neu eu hethol am y tro cyntaf, a Phrif Weinidog a Chabinet newydd yn Llywodraeth Cymru. Mewn ymateb, cytunodd aelodau i adolygu'r Bwrdd, a dechreuodd y broses yn ystod yr hydref 2024.

Fel cam cyntaf, myfyriodd aelodau ar swyddogaeth, pwrpas, cylch gwaith ac amcanion y Bwrdd. Arweiniodd hyn at dair egwyddor gyffredinol:

- Rhoi cymorth i fyrddau lleol gyflawni eu blaenoriaethau
- Cadarnhau dylanwad strategol y Bwrdd wrth gymell newid yn y system
- Canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol

Roedd yr ail gam yn cynnwys diwrnod datblygu i wreiddio'r egwyddorion hyn ac esblygu'r ffordd mae'r Bwrdd yn gweithio. Edrychwn ymlaen at rannu canlyniadau yn y man.